- Byddwch yn wyliadwrus
- Mynnwch sgwrs am beth y mae'n ei ddefnyddio a gyda phwy y mae'n siarad ar-lein
- Cadarnhewch fod y cynnwys yn briodol
- Peidiwch â datgelu gwybodaeth bersonol
- Defnyddiwch reolaethau rhieni

## Byddwch yn ymwybodol o arwyddion radicaleiddio ar-lein

- A yw'n dod yn fwy amharod i oddef safbwyntiau pobl eraill?
- A yw'n rhannu ac yn hoffi postiadau eithafol ar y cyfryngau cymdeithasol?
- A yw'n gyfrinachol am bwy y mae'n siarad â nhw ar-lein?
- A yw'n darllen, yn postio, yn gwylio neu'n rhannu cynnwys a dolenni atgas neu eithafol?
- A yw fel petai'n mynegi safbwyntiau rhywun arall?

Ewch i'r gwefannau yn yr adran 'cyngor a chymorth' i gael rhagor o wybodaeth am aros yn ddiogel ar-lein.

## Cyngor a Chymorth

Act Early
actearly.uk

Internet Matters
internetmatters.org

Safer Internet
saferinternet.org.uk

Parent Zone
parentzone.org.uk

Think You Know
thinkuknow.co.uk



# Radicaleiddio a'r Rhyngrwyd

## Ydy eich anwyliaid yn ddiogel ar-lein?

PLISMONA GWRTHDERFYSGAETH
COUNTER TERRORISM POLICING
CYMRU WALES



**Mae pawb yn defnyddio'r rhyngrwyd fwy nag erioed o'r blaen ac felly mae'n gynyddol bwysig ein bod yn ymwybodol o'r peryglon posibl a sut i ddiogelu ein hanwyliaid ar-lein.**

Mae'r rhyngrwyd wedi cyflwyno llawer o gyfleoedd newydd o ran cyfathrebu, adloniant a gwybodaeth. Ond mae hefyd wedi rhoi ffordd i eithafwyr dargedu pobl sy'n agored i gael eu radicaleiddio, i gysylltu â nhw ac i gyfathrebu â nhw.

Gall unrhyw un wynebu'r risg o gael ei radicaleiddio ni waeth beth yw ei oedran, ond weithiau gall unigolion yn eu harddegau a phobl ifanc wynebu mwy o risg. Mae radicaleiddwyr yn dda iawn wrth nodi pryderon pobl a chamfanteisio ar eu gwendidau. Byddant yn cynnig naratif newydd iddynt neu ffordd o ddianc rhag eu teimladau ar y pryd.

Nid yw'n hawdd herio person ifanc sydd am gael preifatrwydd – ac sydd am i chi ymddiried ynddo. Ond mae'n bwysig darganfod pwy y gallai fod yn dod i gysylltiad â nhw ar-lein. Mae cael sgwrs am radicaleiddio ac eithafiaeth ar-lein yn gynnar ac yn aml yn hanfodol. Mae'n bwysig trafod peryglon y rhyngrwyd â'ch anwyliaid a chael sgyrsiau cyson.

## Gemau ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol

Gall pobl ifanc weld pob math o bethau ar-lein drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy gemau ar-lein. Mae poblogrwydd gemau ar-lein wedi rhoi mwy o gyfle i eithafwyr wneud i'w naratif swnio'n fwy prif ffrwd ac iddynt estyn allan a radicaleiddio eraill. Gall yr hyn sy'n dechrau fel arfer fel sgyrsiau ar lwyfannau prif ffrwd ddatblygu'n gyflym wrth i'r person sy'n cael ei dargedu gael ei wahodd i grwpiau caeedig, ystafelloedd sgwrsio a fforymau.

## Cyngor ar sut i aros yn ddiogel ar-lein:

- Mynnwch sgwrs â'ch plentyn am beryglon posibl cael ei wahodd i grwpiau caeedig neu ystafelloedd sgwrsio.
- Siaradwch â'ch plentyn am bwy y mae'n cysylltu â nhw ar-lein. Nid yw pobl a sefyllfaoedd ar-lein bob amser fel y maent yn ymddangos ar yr olwg gyntaf.
- Siaradwch â'ch plentyn am y ffordd y mae radicaleiddwyr yn chwilio drwy drydariadau, fforymau mewn ystafelloedd sgwrsio a phroffiliau a phostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn nodi pobl a allai fod yn agored i niwed.



## Pa wybodaeth sy'n cael ei rhannu ar-lein?

Mae gemau yn ffordd ardderchog o wneud ffrindiau ar-lein, ond a yw'n rhannu gormod o wybodaeth bersonol?

### Dewiswch enw defnyddiwr diogel

Gwnewch yn siŵr nad yw enwau defnyddiwr yn cynnwys ei enw llawn, ei ddyddiad geni, ei gyfeiriad na'i rif ffôn symudol.

### Gyda phwy y mae'n chwarae?

Gall gemau ar-lein gynnig cyfle i ddefnyddwyr chwarae â ffrindiau a dieithriaid o bob cwr o'r byd. Cofiwch efallai na fydd pobl bob amser yn onest wrth gyflwyno eu hunain.

### Archwiliwch y byd ar-lein gyda'ch gilydd

Eisteddwch i lawr gyda'ch plentyn a dysgwch am y gwefannau a'r apiau y mae'n eu hoffi. A yw'n edrych ar gynnwys sy'n briodol o ran oedran?

### Gwiriwch eich gosodiadau preifatrwydd

Gall newid ei osodiadau preifatrwydd effeithio ar bwy all weld ei fod ar-lein a phwy y bydd yn chwarae â nhw. Os bydd yn lawrlwytho apiau newydd, dylech ei atgoffa i edrych ar y gosodiadau preifatrwydd a diogelwch a'u haddasu. Cadarnhewch ei fod yn gwybod sut i ddefnyddio gosodiadau preifatrwydd.

